Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

**Jane Hutt AC**
Y Gweinidog Cyllid

29 Hydref 2013

Annwyl Weinidog

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2014-15**

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 24 Hydref 2013 i ateb cwestiynau am gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15, ac yn benodol ynglŷn â'r broses o ystyried cydraddoldeb yn y gyllideb.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymateb, fel y bo'n briodol, cyn gynted â phosibl.

Sylwn fod ystyriaethau'r Pwyllgor Cyllid ynghylch y gyllideb ddrafft wedi'u seilio ar y pedwar amcan sy'n gysylltiedig â gwaith craffu ariannol sef: fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian; a phrosesau'r gyllideb. Defnyddiwyd yr amcanion hyn ar gyfer ein hystyriaethau ninnau ac rydym wedi nodi'r amcan perthnasol sy'n ymwneud â phob un o'r materion isod. Anfonir copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio ei ystyriaethau cyffredinol ynghylch y gyllideb ddrafft a bydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

## 1. Ystyriaethau cydraddoldeb yn y gyllideb ddrafft

*(Amcanion craffu: fforddiadwyedd, proses y gyllideb a blaenoriaethu)*

Fel rhan o'n hystyriaethau ynghylch y gyllideb ddrafft y llynedd, gwnaethom nodi bod angen gwelliannau mewn perthynas â'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb ac, yn arbennig, yr hoffai'r Pwyllgor weld agwedd fwy trefnus, cyson a thryloyw tuag


Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel: 029 2089 8147
E-bost / Email : PwyllgorCCLlL@cymru.gov.uk

at yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb flwyddyn nesaf, a hynny'n unol â chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

O ran y gyllideb ddrafft eleni, rydym yn falch bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r broses o ystyried cydraddoldeb yn y gyllideb, gan ddatblygu argymhellion ymchwiliad gwerthfawrogol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ymchwiliad y Pwyllgor i gydraddoldeb a chyllidebu. Rydym yn croesawu, yn arbennig, sefydlu Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb, yr ymgais i gynnal asesiad o effaith gronnus a'r ffaith bod ffactorau ychwanegol fel datblygu cynaliadwy wedi'u hintegreiddio.

Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru "wedi gweithio i ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb ar gam cynnar er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau ar wariant yn cael eu llywio gan ystyriaethau cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf ac yn cael eu dylanwadu ganddynt". Roeddem yn falch eich bod wedi llwyddo i nodi rhai enghreifftiau penodol o hyn, gan gynnwys y rhaglen Cefnogi Pobl a buddsoddi mewn tai cymdeithasol llai o faint.

Rydym o'r farn bod y ddogfen ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb wedi gwella'n sylweddol o gymharu â'r llynedd, ac rydym yn croesawu hyn. Fodd bynnag, rydym yn teimlo bod lle i wella o hyd ac rydym yn annog y Gweinidog i ddatblygu'r gwaith a wnaed eisoes yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan ganolog o broses y gyllideb ar gam cynnar, ym mhob adran. Mae'n hanfodol bod holl ddyraniadau'r gyllideb, yn enwedig y rhai sy'n wynebu toriadau, yn cael eu hasesu mewn modd cymesur a chyson.

At hynny, rydym o'r farn ei bod yn bwysig ichi barhau i ddefnyddio'r broses o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb i fonitro effeithiau negyddol dyraniadau'r gyllideb i'ch galluogi i liniaru'r effeithiau hynny pan fo'n bosibl.

## 2. Y Broses o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

*(Amcan craffu: proses y gyllideb)*

Gwnaethom ofyn ichi am ragor o wybodaeth am Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (y Grŵp). Dywedasoch wrthym mai grŵp lefel uchel ydyw sy'n rhoi cyngor ac yn rhannu arbenigedd ac arfer gorau mewn perthynas â materion cydraddoldeb ac a fydd, yn ei dro, yn cefnogi'r gwaith o wella'r asesiad o effaith cyllideb Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb yn barhaus.

Dywedasoch wrthym fod y Grŵp yn cynnwys nifer o gynrychiolwyr o sefydliadau cydraddoldeb yn y sector gwirfoddol a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynghorwr academaidd, sef Caroline Joll. Dywedasoch hefyd mai chi â'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi sy'n arwain y Grŵp, a bod hyn yn dangos ymrwymiad a rennir i gydraddoldeb.

Gwnaethom ofyn sut y byddech yn mesur y manteision a geir o waith y Grŵp ar brosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Dywedasoch wrthym mai dim ond teirgwaith roedd y Grŵp wedi cyfarfod, ac felly roedd pethau ar gam cynnar o hyd, ond mai'r mesur o lwyddiant fyddai penderfyniadau da, yng

nghyswllt cyllidebau, sy'n adlewyrchu'r *Rhaglen Lywodraethu* a'r sectorau a'r cymunedau y mae'r Llywodraeth yn ceisio eu cefnogi.

Fel y nodir uchod, rydym yn croesawu'r ffaith i Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb gael ei sefydlu, ac yn nodi'r datganiad canlynol yn eich papur: "er ei fod ar gam cynnar, mae eisoes wedi datblygu rhai syniadau ac awgrymiadau blaengar ynglŷn â'r broses asesu". Yn ein barn ni, mae gan Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb y potensial i fod yn ffynhonnell werthfawr o gyngor a gwybodaeth, ac yn sianel allweddol ar gyfer ymgysylltu â grwpiau cynrychiadol.

**Byddem, fodd bynnag, yn croesawu cael rhagor o fanylion gennych ynghylch sut y bydd gwaith y Grŵp yn cyfrannu at waith cynllunio yn y dyfodol, ac, yn yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y gyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf, hoffem weld dadansoddiad o'r gwaith y mae Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. At hynny, edrychwn ymlaen at gael y papur a ddarparwyd i'r Grŵp gan Caroline Joll, y gwnaethoch gytuno i'w rannu.**

Gwnaethom ofyn ichi pam nad oedd yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys asesiadau manwl o effaith gostyngiadau mewn meysydd allweddol fel y trydydd sector a llywodraeth leol, a dywedasoch wrthym eich bod yn disgwyl i lywodraeth leol gynnal ei hasesiadau effaith ei hun. Dywedasoch hefyd eich bod yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r trydydd sector dros yr wythnosau nesaf yn benodol i ystyried y gyllideb a'ch bod yn sicr y byddent yn myfyrio ar yr asesiad o effaith y gyllideb ar gydraddoldeb.

Cawsom ein siomi nad oedd yr asesiadau manwl o effaith gostyngiadau i'r trydydd sector a llywodraeth leol wedi'u cynnwys yn ddigon manwl yn yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd y sectorau hyn a maint y gostyngiadau i'r gyllideb a ddyrennir iddynt yn eu tro. Credwn y dylid defnyddio dull mwy cynhwysfawr y flwyddyn nesaf. Rydym yn cytuno â'ch awgrym y gallai Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb ystyried y mater hwn.

## 3. Asesiadau integredig ac effeithiau cronnus

*(Amcan craffu: proses y gyllideb)*

Rydym yn nodi bod yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gyfer cyllideb ddrafft 2014-15 yn cynnwys ystyriaethau ychwanegol fel datblygu cynaliadwy, hawliau plant, tlodi a'r Gymraeg.

O ran effeithiau cronnus, argymhellodd ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adrannau a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn rhoi blaenoriaeth gynyddol i ddadansoddi data ar nodweddion gwarchodedig i helpu i lywio asesiadau. Rydym yn nodi eich ymateb i hyn, sef bod "pwysau sylweddol ar adnoddau'r Gwasanaeth [Gwybodaeth a Dadansoddi, sef un o adrannau Llywodraeth Cymru], ynghyd â meysydd eraill ar draws Llywodraeth Cymru, ac er bod y gofyniad hwn yn flaenoriaeth uchel, rydym yn cydnabod bod yn rhaid hefyd ei ystyried ochr yn ochr ag amrywiaeth o flaenoriaethau dadansoddi sydd yr un mor bwysig".

Rydym yn croesawu ymgais y Llywodraeth i gynnwys ystyriaethau eraill yn yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb, ond rydym o'r farn bod gwaith i'w wneud o hyd ar fanylion yr ystyriaethau hyn. Rydym yn deall bod y broses hon yn un flaengar, ond hoffem weld y materion hyn yn cael eu hystyried yn fwy cynhwysfawr y flwyddyn nesaf. Hoffem hefyd weld tystiolaeth o gynnydd mewn perthynas ag argymhelliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch rhoi mwy o flaenoriaeth i ddadansoddi data ar nodweddion gwarchodedig er mwyn helpu i lywio'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb.

**4. Y Gymraeg**
*(Amcanion craffu: proses y gyllideb a blaenoriaethu)*

Yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft y llynedd, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ar fyrder, edrych ar ffordd fwy systematig o sicrhau y caiff polisïau eu sgrinio o safbwynt eu heffaith ar y Gymraeg.

Mae'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gyfer cyllideb ddrafft 2014-15 yn nodi: "Fel Llywodraeth, rydym yn ymrwymedig i wella ein dull o asesu effaith ein penderfyniadau Cyllidebol ar yr Iaith Gymraeg. (...) Caiff prosiect penodol ei sefydlu er mwyn ystyried adnoddau asesu posibl ac edrych ar ffyrdd o gryfhau'r cysylltiadau â phrosesau eraill Llywodraeth Cymru." **Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gennych am y prosiect hwn, yn enwedig manylion am pryd y caiff ei sefydlu a beth y bydd yn ei gynnwys.**

Gwnaethom ofyn ichi ba gamau penodol a gymerwyd i edrych ar yr effaith ar y Gymraeg wrth benderfynu faint o'r gyllideb i'w dyrannu. Dywedasoch wrthym fod lefel uchel o waith asesu wedi'i wneud ar gynigion y gyllideb er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o effaith penderfyniadau ynghylch gwariant ar y Gymraeg.

At hynny, gwnaethom ofyn am enghreifftiau o "wahaniaethau sylfaenol" rhwng y cyllidebau drafft ar gyfer y llynedd ac eleni, a ddatblygodd o ganlyniad i'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd eleni. Dywedasoch wrthym fod hyrwyddwyr yr iaith Gymraeg ym mhob un o adrannau Llywodraeth Cymru yn chwarae eu rhan mewn proses barhaus o ddatblygu polisïau a chyllidebau. Gwnaethoch hefyd gyfeirio at fframwaith gwerthuso sy'n cael ei ddefnyddio i edrych ar effaith dyraniadau ar y Gymraeg. **Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am rôl hyrwyddwyr yr iaith Gymraeg a natur y fframwaith gwerthuso.**

Ar y cyfan, cawsom ein siomi nad oeddech yn gallu rhoi unrhyw enghreifftiau penodol o effaith eich asesiadau mewn perthynas â'r Gymraeg ar y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'r gyllideb. Cawsom ein siomi hefyd nad oeddech yn gallu dangos unrhyw wahaniaethau a gafwyd yn y broses gyllidebol eleni o ganlyniad i gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Rydym o'r farn y byddai asesiad mwy trwyadl o effaith penderfyniadau cyllidebol ar y Gymraeg wedi eich galluogi i ddarparu'r wybodaeth hon.

Ar sail hynny, **rydym yn ailadrodd yr argymhelliad a wnaed gennym fel rhan o ystyriaethau ar y gyllideb y llynedd bod angen dull mwy systematig er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau cyllidebol a pholisïau eu hasesu o safbwynt eu**

**heffaith ar y Gymraeg. Edrychwn ymlaen at glywed sut rydych yn bwriadu bwrw ymlaen â hyn yn y dyfodol.**

Yn gywir

**Christine Chapman AC / AM**
Cadeirydd / Chair

cc Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid